**WHC/2023/013**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad Cyhoeddi:** 2 Mai 2023

**STATWS**: **GWEITHREDU**

**CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH**

**Teitl:** Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 (yn disodli Safonau Iechyd a Gofal 2015 - WHC 2015/015)

**Dyddiad dod i ben / Dyddiad yr adolygiad** Dim hwyrach na 2028

**I'w weithredu gan:**
Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdodau Iechyd Arbennig,

**Angen gweithredu erbyn:** 1 Ebrill 2023

**Anfonwr:**
Yr Athro Chris Jones, Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol, GIG Cymru a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :**

Teresa Bridge, Ansawdd a Diogelwch, Cyfarwyddiaeth Ansawdd a Nyrsio. Ffôn: 03000 256797 E-bost: AnsawddANyrsio@llyw.cymru

**Dogfennau Amgaeedig:** Dim un

**Yr Athro Chris Jones**
Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol, GIG Cymru
A'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Annwyl Gyfeillion

Fel y gwyddoch, cafodd y ddyletswydd ansawdd ei chyflwyno'n ddiweddar o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Bellach, bydd y safonau ansawdd iechyd a gofal yn y ddyletswydd yn disodli safonau iechyd a gofal 2015 a gyhoeddwyd o dan WHC (2015) 015. Mae cyflwyno'r ddyletswydd ansawdd yn gyfle i alinio'r safonau'n uniongyrchol â'r arferion rheoli ansawdd ehangach ym maes iechyd yn ogystal ag â'r ddyletswydd ei hunan. Nod y safonau ansawdd iechyd a gofal yw symleiddio'r gofynion, a bod yn hyblyg o ran cylch gwaith eang y ddyletswydd ansawdd.

Mae'r safonau newydd hyn yn gosod y safonau uchel y gall pobl yng Nghymru eu disgwyl pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau iechyd. Maent yn cynnwys chwe maes ansawdd (sef diogel, amserol, effeithiol, effeithlon, teg a pherson-ganolog) sy'n cael eu cefnogi gan chwe galluogwr ansawdd (sef arweinyddiaeth; gweithlu; diwylliant; gwybodaeth; dysgu, gwella ac ymchwil; ac ymagwedd systemau cyfan). Mae gwybodaeth fanwl am y meysydd a'r galluogwyr ar gael yn adran 6 o'r canllawiau dyletswydd ansawdd ac maent i'w gweld yn y diagram isod:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nod cylch gwaith eang y safonau yw darparu strwythur ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd ansawdd ar lefel polisi cenedlaethol neu gan ddarparwyr gwasanaethau, a byddant yn berthnasol i bob gwasanaeth a lleoliad clinigol ac anghlinigol. Maent yn rhan integredig o'r system iechyd ehangach.

Mae datganiadau ansawdd, a gyflwynwyd yn Cymru Iachach ac sydd wedi eu disgrifio yn y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol yn gydnaws â'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal, ac maent yn gosod y disgwyliadau polisi ar gyfer gwaith cynllunio a threfniadau atebolrwydd y GIG yng Nghymru yn y dyfodol.

Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn defnyddio'r safonau diwygiedig wrth gynnal adolygiadau ac ymchwiliadau fel rhan o'i rôl sicrwydd cyhoeddus.

Mae'r ddyletswydd a'r safonau ansawdd iechyd a gofal yn asedau i'w defnyddio ar gyfer cyflawni ein huchelgais ni yng Nghymru o ddarparu gwasanaethau iechyd o'r safon uchaf posibl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Yn gywir

**YR ATHRO/PROFESSOR CHRIS JONES**